Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tremora Cottage**

**Abermo**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19 Ebrill 2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tremora Cottage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Treherne Care and Consultancy Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Awst 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn dewis sut i fyw eu bywydau yng nghartref Tremora Cottage. Mae ganddynt amrywiaeth o ddiddordebau a hobïau y maent yn eu dilyn, ar eu pen eu hunain a gyda chymorth. Mae ganddynt eu trefn ddyddiol unigol ac maent yn bwyta beth y maent am ei fwyta pryd bynnag y byddant am ei fwyta. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn gan nodi'n glir beth sy'n bwysig i bob unigolyn a beth yw ei ganlyniadau. Mae'r cymorth a roddir wedi'i gynllunio i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae ystafelloedd y bobl i gyd yn wahanol ac yn adlewyrchu diddordebau a dewisiadau'r unigolyn. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn eu hystafelloedd ac yn teimlo eu bod yn cynnwys popeth sydd ei angen arnynt. Mae angen gwneud rhywfaint o waith atgyweirio ac adnewyddu yn ardaloedd cymunedol y cartref er mwyn sicrhau eu bod yn fwy croesawgar a chyfforddus, ac mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw yn yr ardd er mwyn sicrhau ei bod hi'n haws i'w defnyddio.

Ni ellir gwarantu lefelau staffio digonol bob amser; pan fydd staff yn sâl neu'n absennol, mae'r gronfa o staff sydd ar gael i alw arnynt yn gyfyngedig. Mae'r rheolwyr wrthi'n ystyried sut y gellir gwella'r trefniadau recriwtio. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol, sef yr unigolyn a ddynodir i oruchwylio'r gwasanaeth, gyflawni ei rôl yn fwy effeithiol drwy ymweld â'r cartref yn rheolaidd, rhoi gwiriadau a mesurau cadarn ar waith a llunio adroddiadau o ansawdd y gofal ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y tynnir sylw'r darparwr at unrhyw faterion ac y cânt eu datrys yn fwy prydlon.

## Llesiant

Rhoddir dewis i'r bobl ac mae ganddynt reolaeth dros bob agwedd ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Maent yn dewis ble a sut i dreulio eu diwrnod ac yn dilyn eu diddordebau a'u hobïau eu hunain. Cânt eu helpu i gynnal cydberthnasau ag aelodau o'u teulu a ffrindiau, wrth i'r staff eu cludo i ymweld â'r bobl sy'n bwysig iddynt. Mae rhai o'r bobl yn defnyddio'r cyfleusterau lleol ac yn manteisio ar y lleoliad glan môr i bysgota ac i fynd am dro hir. Mae'r bobl yn dewis beth yr hoffent ei fwyta ac yn helpu i baratoi'r bwyd. Mae cydberthnasau da rhyngddynt a'r staff a gallant sgwrsio yn Gymraeg â'r staff sydd hefyd yn siarad yr iaith.

Caiff iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl eu hamddiffyn a'u hybu gan staff hyfforddedig sy'n gofyn am gyngor ac arweiniad proffesiynol yn gyflym pan fo angen. Caiff anghenion gofal y bobl a'u canlyniadau dymunol unigol eu cofnodi mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn i'r staff wybod sut y mae'n well gan y bobl gael cymorth. Mae'r staff yn mynd gyda'r bobl i apwyntiadau sy'n eu cadw'n iach. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu cadw'n heini fel pysgota, cerdded a dringo.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel gan bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, y mae'n rhaid i'r staff eu dilyn. Caiff y staff eu fetio'n briodol cyn iddynt gael eu cyflogi, ac mae'n rhaid iddynt ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant cyn iddynt allu rhoi cymorth i'r bobl yn y cartref, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae swyddfa yn y tŷ lle gall y staff a'r preswylwyr siarad â'r rheolwr os byddant byth yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar y gofal a ddarperir.

Mae'r bobl yn byw mewn tŷ mawr, y mae ei gefn yn wynebu tuag at y môr gan gynnig golygfeydd hyfryd o'r traeth. Mae dwy o'r tair ystafell wely i breswylwyr ar y llawr gwaelod, ac mae'r llall i fyny'r grisiau ym margod y tŷ. Mae pob ystafell yn adlewyrchu dewisiadau'r unigolyn dan sylw, ac yn cynnwys lluniau, ffotograffau a phethau eraill sy'n bwysig iddynt. Mae lolfa ganolog a chegin sy'n ddigon mawr i'r bobl allu cael cymorth i baratoi bwyd. Mae angen rhywfaint o waith atgyweirio ac adnewyddu yn y tŷ, ac mae angen rhywfaint o sylw ar yr ardd er mwyn iddi fod yn fwy croesawgar.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth cyn i'r bobl ddod i fyw yn y cartref er mwyn gwneud yn siŵr y gellir diwallu'r holl anghenion a nodwyd. Gwelsom fod gweithwyr proffesiynol, y bobl a'u teuluoedd yn cyfrannu gwybodaeth, gan helpu i roi darlun da a chlir o'r anghenion, y dewisiadau, yr hobïau a'r diddordebau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan bob person gynllun gofal cywir a chyfredol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu canlyniadau'r bobl yn gywir. Gwelsom fod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau ac mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r ffaith bod y bobl yn manteisio ar y cyfle i leisio barn ar eu gofal. Caiff yr asesiadau risg ar gyfer pob maes risg posibl eu cwblhau a'u hadolygu'n unol â'r cynlluniau gofal.

Ymgynghorir â'r bobl am bob agwedd ar eu bywyd yn y cartref. Mae trefn pob person o ddydd i ddydd yn amrywio gan ddibynnu ar ei ddewisiadau. Gwelsom y bobl yn dod i mewn i'r gegin ac yn gwneud diodydd poeth iddyn nhw eu hunain; roeddent hefyd yn bwyta eu prydau ar wahanol amseroedd. Gwelsom fod pob person wedi rhestru'r eitemau yr oedd eu hangen arnynt fel rhan o'r daith siopa nesaf, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod yn hoffi pethau gwahanol. Mae enwau'r bobl wedi'u nodi ar y silffoedd yn yr oergell ac yn y cypyrddau yn y gegin er mwyn gwybod pwy sy'n berchen ar ba fwydydd. Mae'r cofnodion gweithgareddau a'r cynlluniau cymorth cysylltiedig yn dangos bod y gwasanaeth yn parchu ac yn hyrwyddo hawl y bobl i fod yn annibynnol ac i wneud dewisiadau. Mae'r bobl yn dewis gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau fel pysgota, cerdded a dringo. Gwnaethom siarad â'r bobl a ddywedodd wrthym eu bod yn gallu gweld eu teulu a'u ffrindiau gan fod y staff yn ddigon parod i'w hebrwng. Dywedodd un person wrthym; *'the staff are good'*. Dywedodd '*I have everything I want in my room'* a '*wouldn't change a thing about the home; everything is fine as it is'.*

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar ofal iechyd ac unrhyw wasanaethau eraill sydd eu hangen i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Gwelsom nodiadau a thystiolaeth arall o apwyntiadau ag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol. Mae cofnodion y bobl yn dangos eu bod yn mynd at y deintydd, yr optegydd, y dermatolegydd a'r ffisiotherapydd; mae'r cofnodion hefyd yn dangos bod y bobl yn cael dewis p'un a ydynt am fynd i'w gweld ai peidio. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hysbysu am eu hawl i gael eiriolwr os byddant am wneud hynny.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau i'w dilyn os bydd pryder o'r fath. Mae rheolwr yn bresennol yn y cartref bob dydd felly gall y bobl godi materion os byddant am wneud hynny. Gwnaethom siarad ag aelod o'r staff gofal a gadarnhaodd ei bod hi'n hawdd siarad â'r rheolwr. Dengys y cofnodion mai dim ond er budd pennaf y bobl y

rhoddir unrhyw gyfyngiadau ar ryddid y bobl ar waith, a hynny â chytundeb llawn y bobl, eu teulu a'r awdurdod diogelu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i leoli mewn tref glan môr â chyfleusterau hamdden, siopau a llwybrau cerdded lleol a golygfeydd ardderchog o'r môr. Mae trafnidiaeth ar gael i'r bobl ymgymryd â gweithgareddau y mae angen teithio ymhellach ar eu cyfer, fel ymweld â theulu a ffrindiau. Mae'r tŷ yn ddigon mawr i'r tri phreswylydd, ac yn cynnwys tair ystafell wely, lolfa/ystafell fwyta â digon o ddodrefn a chegin. Mae cyfleusterau ensuite mewn dwy ystafell wely ac mae ystafell ymolchi yn agos at yr ystafell wely arall, at ddefnydd y preswylydd hwnnw'n unig. Ar hyn o bryd, mae'r preswylwyr yn dueddol o dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd un person wrthym ei fod wrth ei fodd yn cael cadair newydd yn ei ystafell wely, gan fod y gadair ogwyddol flaenorol wedi torri. Dywedodd fod popeth sydd ei angen arno yn ei ystafell a'i fod yn fodlon ar y cartref. Nodwyd gennym y byddai rhai gwelliannau i weddill y tŷ o bosibl yn gwneud i'r ardaloedd cymunedol deimlo'n fwy croesawgar ac yn annog y preswylwyr i ddefnyddio pob ardal yn llawn. Mae'r cypyrddau yn y gegin yn hen ac nid oes dolenni ar rai o'r droriau; mae ôl traul ar arwyneb gwaith y gegin ac nid yw'n anhydraidd mewn mannau mwyach. Mae digon o olau yn dod drwy ddrws y patio yn y lolfa ac mae'n cynnig golygfa o'r môr, ond mae'n ddiffygiol ac nid oes modd ei agor yn hawdd er mwyn cael awyr iach. Yn y lolfa, mae angen gwneud gwaith plastro ac mae angen cael cadair newydd yn lle un o'r cadeiriau sydd wedi treulio'n ofnadwy. Nid yw drws un o'r ystafelloedd gwely, sydd hefyd yn ddrws tân, yn cau'n iawn; mae problem o hyd gyda'r tanc carthion, sy'n broblem a nodwyd dros flwyddyn yn ôl, ac mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw yn yr ardd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer unigolion yn rhan o'r cynllun darparu gofal, ac mae cyfarwyddiadau clir i'r staff ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl yn ddiogel. Caiff profion eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cartref yn ddiogel, gan gynnwys profi tymheredd y dŵr, y cyfarpar tân a diogelwch tân, a gwirio'r gosodiadau trydanol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith gan y darparwr i fonitro cynnydd ac i sicrhau bod y cartref yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol, ond nid yw'r trefniadau hyn yn ddigonol. Nododd yr arolygiad faterion a nodwyd yn flaenorol yn adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol ei hun yn dilyn ymweliadau ym mis Mai 2019 a mis Ebrill 2022. Nid yw Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth wedi ymweld â'r cartref mor aml ag sy'n ofynnol, gan iddo fethu'r ddau ymweliad chwarterol diwethaf a drefnwyd. Mae'n bosibl y byddai ymweliadau ac archwiliadau mwy rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol wedi nodi nad ymdriniwyd â'r materion hyn eto a bod materion eraill wedi codi hefyd erbyn hyn, ac mae'n bosibl y byddai'r darparwr wedi eu datrys yn gyflymach. Yn ogystal, nodwyd gennym mai unwaith bob blwyddyn y mae adroddiad o'r adolygiad o ansawdd y gofal yn cael ei lunio, yn hytrach na bob chwe mis, felly ni all y darparwyr bob amser oruchwylio'r gwasanaeth gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol a chywir. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff. Nid yw'r darparwr yn cyflogi niferoedd digonol o staff gofal i sicrhau bod staff ar gael iddo alw arnynt os bydd aelod o staff y bwriadwyd iddo weithio yn sâl neu'n absennol. Mae'r rotas yn dangos bod angen dau aelod o staff gofal a rheolwr er mwyn rhoi cymorth effeithiol; yn ystod ein hymweliad, dim ond un aelod o staff gofal a rheolwr oedd ar gael. Roedd dau aelod o staff yn sâl ac nid oedd unrhyw aelodau eraill o staff ar gael. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a gadarnhaodd fod hyn yn digwydd weithiau gan nad oes digon o staff ar gael. Gwnaethom siarad â'r bobl, yr oedd dau ohonynt hefyd yn aros yn eu hystafelloedd oherwydd salwch, ac nid oedd y sefyllfa wedi cael effaith andwyol arnynt. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn cael eu fetio'n llawn cyn dechrau gweithio yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Rhaid iddynt ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant yr ystyrir ei fod yn orfodol cyn iddynt allu gweithio ar eu pen eu hunain er mwyn helpu i sicrhau ymarfer da a chyson a gwneud yn siŵr bod y staff yn ymwybodol o sut i ddiwallu anghenion y bobl mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Caiff y staff gyfleoedd i wella eu sgiliau mewn perthynas ag anghenion penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi, ei fod yn *'breath of fresh air'* ac '*always share information with staff'*. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac y gallant siarad â'r rheolwr am unrhyw faterion.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r cartref mewn cyflwr da y tu mewn; mae angen gwaith adnewyddu ac atgyweirio ac mae angen gwaith cynnal a chadw yn yr ardd. | Newydd |
| 34 | Nid oes digon o staff yn cael eu cyflogi i sicrhau bod staff digonol wrth gefn os bydd aelod o staff y bwriadwyd iddo weithio yn absennol. | Newydd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Gwnaethom nodi materion y gellid bod wedi'u nodi ac y gellid bod wedi tynnu sylw'r darparwr atynt yn gyflymach pe byddai'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld yn amlach. Nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/06/2023

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r cartref mewn cyflwr da y tu mewn; mae angen gwaith adnewyddu ac atgyweirio ac mae angen gwaith cynnal a chadw yn yr ardd. | Newydd |
| 34 | Nid oes digon o staff yn cael eu cyflogi i sicrhau bod staff digonol wrth gefn os bydd aelod o staff y bwriadwyd iddo weithio yn absennol. | Newydd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Gwnaethom nodi materion y gellid bod wedi'u nodi ac y gellid bod wedi tynnu sylw'r darparwr atynt yn gyflymach pe byddai'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld yn amlach. Nid yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/06/2023